Undeb Prifysgolion a Cholegau

# CYFIAWNDER PENSIWN USS

## RYDYN NI WEDI'I ENNILL
## RYDYN NI'N EI HAEDDU
## RYDYN NI'N EI FYNNU

**PLEIDLEISIWCH IE I FYND AR STREIC.**

**PLEIDLEISIWCH IE I WEITHREDU SYDD DDIM YN GOLYGU MYND AR STREIC.**

**www.ucu.org.uk**

Undeb Prifysgolion a Cholegau

# GWEITHREDWCH NAWR I AMDDIFFYN EICH DYFODOL

Mae eich cyfraniad pensiwn eisoes yn 8.8% o'ch cyflog. Mae Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS) wedi anwybyddu'r rhan fwyaf o argymhellion y Cyd Banel Arbenigol (JEP) ar gyfer newidiadau i'r fethodoleg werthuso danseiliedig. Os na ellir dod i gytundeb y bydd y cyflogwyr yn talu unrhyw godiadau sy'n digwydd, gallai eich cyfraniad chi fod cymaint â 11% o'ch cyflog erbyn Hydref 2021. Ond yn waeth na hynny, mae'n bosib y bydd y cyflogwyr yn ceisio arbed arian drwy ostwng buddion neu hyd yn oed gau'r rhan 'buddion diffiniedig' o'r cynllun.

Polisi UCU yw NA fydd cynnydd yng nghyfraniadau'r aelodau ac NA fydd toriadau mewn buddion. Rhaid i ni weithredu nawr i ddiogelu ein buddiannau a sicrhau cyfiawnder pensiwn i'n haelodaeth ymroddedig a gweithgar.

Mae'n hanfodol ein bod yn datrys y mater hwn nawr. Os ydym yn aros ac yn gobeithio am y gorau, efallai y collwn ni'r cynnydd yr ymladdon ni drosto a'i ennill yn ystod streiciau llynedd. Gallai methu â mynnu nawr bod y cynllun yn cael ei werthuso'n briodol neu fod y cyflogwyr o leiaf yn talu am unrhyw gynnydd anghyfiawn mewn cyfraniadau ein harwain yn ôl i lawr llwybr tuag at israddio buddion a hyd yn oed atgyfodi'r bygythiad i ddod â'r pensiwn gwarantedig ei hun i ben.

**PLEIDLEISIWCH IE I FYND AR STREIC.**

**PLEIDLEISIWCH IE I WEITHREDU SYDD DDIM YN GOLYGU MYND AR STREIC.**

**www.ucu.org.uk**